Croeso

Diolch am ddod i gael pip ar yr hyn sy'n digwydd yn ein dosbarth – Dosbarth Cregyn.

Mrs Lewis yw'r athrawes a Miss Morgan sy'n cynorthwyo.

Mae sawl ardal yn y dosbarth sydd yn ein helpu i ddysgu – Cornel Creu, Bysedd Prysur, Llafar Lliwgar, Llawennydd mewn Llyfrau, 'Sgiliau Sgwennu, Tric a Chlic, Tech Teriffig, Mathemateg, Cadw'n Heini, Cornel Cloddio a'r Sied Awyr Iach.
Mae'r ardaloedd hyn yn atgyfnerthu'r dysgu ac yn galluogi'r plant i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Llyfr Dysgu Adref

Bydd tasgau dysgu adref yn cael eu lanlwytho i gyfri Hwb pob plentyn dydd Gwener i'w gwblhau erbyn dydd Mawrth. Bydd y tasgau yn cynnwys tasgau amrywiol i'ch plentyn cwblhau.

Darllen

Mae yna nifer fawr o lyfrau darllen yn cyfrif HWB pob plentyn. Rydym yn ymgeisio i ddarllen yn ddyddiol ond nid yw hyn yn bosib o hyd. Mae stori cyn gwely yn ffordd arbennig o ddysgu darllen a gwrando'n astud!

Addysg Gorfforol

Mae angen i bob plentyn wisgo ei wisg addysg gorfforol i'r ysgol pob dydd Iau. PLIS gwnewch yn siwr bod ganddynt esgidiau priodol (treinars) i redeg ynddo. Gellir prynu cit addysg gorfforol yr ysgol wrth Tees R Us, New Hedges, Dinbych-y-Pysgod.

Mercher Mwdlyd

Mae angen hen ddillad ac esgidiau glaw ar eich plentyn pob dydd Mercher. Rydym yn gwneud ystod o weithgareddau yn ystod y prynhawn – rhai ohonynt yn anniben dros ben! Plis gwnewch yn siwr nid oes ots gennych fod dillad eich plentyn yn trochi.

Rydym yn annog y plant i fod yn annibynnol ac yn gyfrifol am eu pethau personol fel rhan o'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Ein thema y tymor hyn yw 'Fy nghartref'.